# Ymgynghoriad ar Raglen Cydweithredu Cymru Iwerddon 2014 - 2020

**Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad**

Eich enw: Colette Price

Sefydliad: (os yn berthnasol) Cyfoeth Naturiol Cymru

ebost Colette.price@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Eich cyfeiriad: Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
BANGOR
LL57 2DW

Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori isod yn chwarae rhan bwysig wrth baratoi testun terfynol Rhaglen Cydweithredu Cymru Iwerddon 2014 – 2020 y byddwn ni'n ei chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gofynnir am farn pawb sydd â diddordeb.

**Manylion Cyswllt**

Anfonwch eich ymatebion i'r ymgynghoriad at:

Yr Uned Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy e-bost at:
IrelandWalesCrossBorderProgramme@Wales.GSI.Gov.UK

Os hoffech holi ynghylch unrhyw beth, cysylltwch â'r tîm ar y cyfeiriad ebost uchod.

Dylid anfon yr ymatebion cyn **31 Gorffennaf 2014**.

Bwriad y cwestiynau canlynol yw helpu i ffurfio'r ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori hon:

**Adran 1: Strategaeth y Rhaglen**

1. Ydych chi'n cytuno ein bod ni wedi'i nodi'r heriau cywir ar gyfer y Rhaglen Cymru Iwerddon?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Mae'r heriau a nodir ar gyfer y Rhaglen Cymru – Iwerddon yn briodol ar gyfer yr ardal. Rydyn ni'n croesawu'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd swyddogaeth adnoddau naturiol yr ardal, yn enwedig yr amgylchedd forol, o ran buddion economaidd a chymdeithasol. Fodd bynnag, fe fyddem yn annog y Rhaglen i gydnabod fod Datblygu Cynaliadwy a Newid Hinsawdd yn heriau mawr i ardal y rhaglen ac y dylai hynny gael ei ystyried a'i gyfuno mewn pob blaenoriaeth.

2. Ydych chi'n cytuno fod yr heriau a nodwyd yn canolbwyntio digon ar ateb anghenion y rhanbarth trawsffiniol?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y dylid canolbwyntio ar anghenion penodol yr ardal a chynnwys yr heriau hynny er mwyn gallu ystyried a chynnig yn realistig nifer o gyfleoedd i ddarpar ymgeiswyr.

**Adran 2: Blaenoriaethau thematig**

**Echel Blaenoriaeth 1 - Arloesedd**

3. Ydych chi'n cytuno mai'r heriau penodol y mae'r Echel Flaenoriaeth hon yn ceisio talu sylw iddyn nhw yw'r rhai y dylai Rhaglen Cymru Iwerddon ganolbwyntio arnyn nhw?

| | | x | | |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Rydyn ni'n cytuno fod Heriau 2 a 3 (llif gwybodaeth a gwell galluoedd arloesol) yn hynod o berthnasol i'r Flaenoriaeth hon.

Fodd bynnag, rydyn ni o'r farn y gallai Her 1 (defnyddio potensial Môr Iwerddon) a Her 4 (yn Fregus i Newid Hinsawdd) fod yr un mor berthnasol. Byddai hyn yn sicrhau bod pwysigrwydd economaidd adnoddau naturiol ardal y rhaglen yn cael ei gydnabod yn llawn ac yn cael ei gyfuno ym mhob datblygiad ac mai ar risgiau Newid Hinsawdd y bydd gweithrediadau arloesol yn canolbwyntio.

4. A yw'r Amcan Penodol yn talu sylw digon clir i'r heriau hyn?

| | | x | | |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Mae'r Amcan Penodol yn talu digon o sylw i Heriau 2 a 3 ond, fel uchod, rydyn ni o'r farn y dylai'r Amcan hefyd dalu sylw i Heriau 1 a 4. Gellid talu sylw hefyd i Heriau 1 a 4 drwy fynnu y dylai pob prosiect yn y Flaenoriaeth hon ystyried a thalu sylw i faterion Newid Hinsawdd drwy annog arloesedd wrth ddefnyddio'r ffin forol rhwng Cymru ac Iwerddon.

Dylid nodi na fydd pob arloesedd o angenrheidrwydd yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell y dylid cael trefniadau diogelu er mwyn sicrhau y bydd gofyn i unrhyw waith o dan y Flaenoriaeth hon yn ystyried, ar y cyd, faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel rhan o ddatblygiad y prosiect. Byddai hyn yn cydfynd â gofyniad Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

5. Ydych chi'n cytuno bod y mathau o Weithredu a nodir yn berthnasol ac yn ddigon clir i lwyddo i gyrraedd yr Amcan Penodol?

| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Mae'r mathau o Weithredu'n berthnasol ac yn debyg o gyrraedd yr Amcan Penodol ond, fel o'r blaen, fe fydden ni'n croesawu canolbwyntio fwy ar Newid Hinsawdd a'r ffin forol.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell y dylid ystyried goblygiadau Newid Hinsawdd ac y dylid ystyried cyfleoedd i liniaru neu fabwysiadu fel themâu trawsbynciol ar gyfer pob prosiect ac felly hefyd egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ehangach.

**Blaenoriaeth Echel 2 – Newid Hinsawdd**

6. Ydych chi'n cytuno mai'r heriau penodol y mae'r Echel Flaenoriaeth hon yn ceisio talu sylw iddyn nhw yw'r rhai y dylai Rhaglen Cymru Iwerddon ganolbwyntio arnyn nhw?

| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|
| x | | | | |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Heriau 1 a 4 (potensial Môr Iwerddon a pha mor fregus yw i Newid Hinsawdd) yw'r canolbwynt priodol ar gyfer y Flaenoriaeth hon ac rydyn ni'n cytuno bod heriau 2 a 3 yn eithaf perthnasol i'r Flaenoriaeth hefyd.

7. A yw’r Amcan Penodol yn talu sylw digon clir i’r anghenion a’r heriau hyn?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Mae’r Amcan Penodol yn talu sylw i‘r anghenion a’r heriau sy’n berthnasol i’r Flaenoriaeth hon. Fel sy’n cael ei gydnabod yn y ddogfen ymgynghori, mae addasu i newid hinsawdd o’r pwysigrwydd pennaf i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal y Rhaglen ac rydyn ni’n croesawu’r cyfleoedd y mae’r Rhaglen yn eu cynnig. Rydyn ni hefyd yn croesawu’r cyfeiriad at y dull yn seiliedig ar ecosystemau ar gyfer addasu ar gyfer newid hinsawdd.

8. Ydych chi’n cytuno bod y mathau o Weithredu a nodir yn berthnasol ac yn ddigon clir i lwyddo i gyrraedd yr Amcan Penodol?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

ddigon penodol i gyflawni’r Amcan Penodol ac rydyn ni’n croesawu hyn.
O ran Math o Weithredu 5 – Eco-arloesedd, er bod llawer o'r gweithredoedd a gynigir yn berthnasol ac yn ddigon penodol ac yn debyg o gyflawni'r Amcan Penodol, mae gennym ni rai sylwadau manylach ar yr awgrym y gellid defnyddio buddsoddiad i ddatblygu prototeipiau. Rydyn ni’n croesawu’r ffaith y gallai’r Rhaglen hyrwyddo datblygiad cynaliadwy’r sector ynni tonnau a llanw sy'n ymddangos ym Môr Iwerddon, sydd wedi cael hwb yn ddiweddar gan yr anerchiad y bydd gan Ystâd y Goron nifer o 'barthau arddangos’ ar gyfer arbrofi cyn fasnachol a phrofi technolegau.
Fodd bynnag, gallai datblygu a phrofi hyd yn oed dim ond un ddyfais ynni morol lyncu cyfran helaeth o'r arian sydd ar gael heb ddim sicrwydd y deuai unrhyw fudd ehangach i'r sector. Ffordd fwy effeithiol a thecach o ddefnyddio’r arian sydd ar gael fyddai canolbwyntio ar agweddau o arloesedd a dylunio i dalu sylw i rai o’r problemau amgylcheddol allweddol a allai godi ac i effeithiau dyfeisiadau tonnau a llanw. Mae cymaint o ansicrwydd ynghylch effeithiau’r dyfeisiadau newydd hyn, sydd hefyd yn peri trafferthion i’r broses drwyddedu, a gallai datblygu dulliau arloesol i leihau neu i osgoi effeithiau o'r fath fod yn gryn gymorth i fasnacheiddio’r sector. Mae'r ansicrwydd a’r problemau pennaf wedi’u cofnodi’n helaeth ac, yn ogystal â’r blaenoriaethu ymchwil a datblygu allweddol sydd i’w canlyn, maen nhw’n cael eu cofnodi mewn adroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Ystâd y Goron (The Crown Estate / Aquatera. January 2014. Wave and Tidal Enabling Actions report: Consolidation of wave and tidal EIA / HRA issues and research priorities. Technical report. 51pp.).
Fe fydden ni, felly, yn argymell y dylai elfennau ynni morol y Rhaglen geisio canolbwyntio ar y problemau pennaf a nodir yn yr adroddiad hwn, a gellid trosglwyddo neu allosod yr hyn a ddysgir i fathau eraill o ddyfeisiadau a lleoliadau a fyddai o fudd ehangach.

Hefyd, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgwyl y byddai cynnwys digon o amddiffyniad amgylcheddol yn rhan annatod o’r prosiectau hyn, a fyddan nhw'n cael eu cynnal mewn ardal ddynodedig dan warchodaeth ai peidio, er mwyn sicrhau fod bioamrywiaeth a chynefinoedd morol yn cael eu gwarchod, gan gynnwys y bygythiad gan rywogaethau anfrodorol ymwthiol.

**Blaenoriaeth Echel 3 – Adnoddau a Threftadaeth Naturiol a Diwylliannol**

9. Ydych chi’n cytuno mai'r heriau penodol y mae’r Echel Flaenoriaeth hon yn ceisio talu sylw iddyn nhw yw’r rhai y dylai Rhaglen Cymru Iwerddon ganolbwyntio arnyn nhw?

| X | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf |

| | | anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

| |
|---|
| Rydyn ni’n cytuno y dylai'r Flaenoriaeth hon ganolbwyntio ar Heriau 1, 5 a 6 er mwyn cyrraedd yr Amcan Penodol o wireddu, yn gynaliadwy, botensial economaidd asedau naturiol a diwylliannol ardal y Rhaglen. |

10. A yw’r Amcan Penodol yn talu sylw digon clir i’r anghenion a’r heriau hyn?

| | x | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

| |
|---|
| Mae’r Amcan Penodol yn amlwg yn talu sylw i Heriau 1, 5 a 6 ac yn cydnabod y gallai llawer o asedau naturiol a diwylliannol ardal y Rhaglen fod yn werthfawr. Fodd bynnag, er bod yr Amcan yn cydnabod pwysigrwydd datblygu cynaliadwy cymdeithasol-gynhwysol, byddem ni’n croesawu rhai cyfeiriadau penodol ynghylch darparu cyfleoedd i gymunedau difreintiedig. |

11. Ydych chi’n cytuno bod y mathau o Weithredu a nodir yn berthnasol ac yn ddigon clir i lwyddo i gyrraedd yr Amcan Penodol?

| x | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

| |
|---|
| Mae’r Mathau o Weithredu a nodir yn berthnasol ac yn ddigon penodol i lwyddo i wireddu’r Amcan Penodol a, hefyd, heb fod yn rhy gaeth. Dylai hynny alluogi'r grwpiau targed i gyflwyno amrywiaeth eang o fathau o brosiectau sy'n gweddu orau yn y cyd-destun economaidd a chymdeithasol.’ |

**Cwestiynau Cyffredinol**

12. A yw'r Rhaglen ar y cyfan yn talu sylw i anghenion a'r heriau sydd wedi'u nodi yn ardal y rhaglen?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |
| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Mae'r Rhaglen yn talu sylw i'r heriau mawr sy'n wynebu ardal y Rhaglen ac yn cynnig posibiliadau gwirioneddol ar gyfer ymyriadau a fyddai'n arwain at dwf economaidd cynaliadwy. Rydyn ni'n croesawu'r y gydnabyddiaeth sy'n cael ei roi i'r amgylchedd naturiol fel gyrwr economaidd. Fodd bynnag, gallai rhai ymyriadau niweidio'r amgylchedd naturiol os nad oes digon o amddiffyniad yn cael ei sefydlu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i sicrhau y gwneir popeth fydd ei angen rhag niweidio cynefinoedd a rhywogaethau ac, os yn bosibl, y bydd pob prosiect yn cynnwys gwaith a fydd yn cael effaith positif ar yr amgylchedd. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cyfle i drafod hyn ymhellach gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

13. Ni wnaed unrhyw benderfyniad ffurfiol ynghylch rhannu'r arian rhwng yr echelydd â blaenoriaeth ond rhagwelir mai Echel Blaenoriaeth 1 (arloesedd) fydd yn derbyn y ganran fwyaf yn y rhaglen ac yna Echel Blaenoriaeth 2 ac wedyn Echel Blaenoriaeth 3. Sut y byddech chi'n rhoi'r pwysedd perthnasol ar bob un o'r tair Echel Blaenoriaeth o gofio am anghenion a heriau ardal y rhaglen?

Er y gallai datblygu cynnyrch a phrototeipiau newydd (Blaenoriaeth 1) fod angen llawer iawn o fuddsoddiad, mae'n debyg y byddai unrhyw brosiect gydag elfen forol neu arfordirol yn costio llawer iawn. .
Mae Blaenoriaeth 2 i A4 yn targedu'n benodol reoli'r amgylched, ecosystemau a bioamrywiaeth forol yn gynaliadwy – mae'n annhebyg y byddai hyn yn bosibl heb ddefnyddio cychod arolygu ayb. Mae Blaenoriaeth 2 i A5 yn cynnwys rhai mentrau peilot ar gyfer y sector ynni gynaliadwy forol – unwaith eto, bydd y math yma o waith yn hynod o ddrud. Mae Blaenoriaeth 3 yn cynnwys datblygu twristiaeth forol, gan gynnwys twristiaeth ar y môr.

Yn hytrach na rhannu'r gyllideb yn ôl blaenoriaeth yn unig, fe fyddem ni'n awgrymu y dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ystyried cyfeiriad y prosiect. Bydd prosiectau morol neu arfordirol llwyddiannus angen rhagor o arian i gyrraedd Amcanion Penodol eu Blaenoriaeth berthnasol

14. Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes yna unrhyw fater cysylltiedig nad ydym ni wedi cyfeirio ato'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w grybwyll.

Ychwanegwch unrhyw resymau dros eich ymateb yn y blwch isod:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu Rhaglen Cymru Iwerddon fel ffynhonnell buddsoddiadau mewn datblygu cynaliadwy yn ardal y Rhaglen ac yn cefnogi'r Blaenoriaethau a'r Amcanion sydd wedi'u dewis.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'n benodol y cyfleoedd a nodwyd ar gyfer yr amgylchedd fel gyrrwr twf call, cynaliadwy a chynhwysol.

Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydnabod y gallai prosiectau niweidio amgylchedd neu adnoddau naturiol yr ardal. O gofio hyn, fe fyddem ni'n argymell y dylid cynnwys ystyriaethau amgylcheddol ymhob penderfyniad wrth ddatblygu prosiectau. Dylid annog noddwyr prosiectau i gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru gynted â bo modd er mwyn sicrhau y ceir cymaint o fanteision economaidd â phosibl.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn pwysleisio fod angen thema trawsbynciol gref o Ddatblygu Cynaliadwy a byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth ac o drafod ar gynigion i sicrhau y cyfunir y themâu trawsbynciol ac amddiffyn yr amgylchedd ym mhob Blaenoriaeth.

Mae'n debyg y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch yma: ☐